

Y gwasanaethau cymorth mabwysiadu a ddarperir yng Nghymru a'r profiad ohonynt: Safbwyntiau asiantaethau mabwysiadu a rhieni mabwysiadol.

Dr Heather Ottaway, Professor Sally Holland and Dr Nina Maxwell

CASCADE

Briff Ymychwil

Rhif 2: Tachwedd 2014



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd





Y gwasanaethau cymorth mabwysiadu a darperir yng Nghymru a'r profiad ohonynt: Safbwyntiau asiantaethau mabwysiadu a rhieni mabwysiadol

Dr Heather Ottaway, Professor Sally Holland and Dr Nina Maxwell
Negeseuon allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer

- Mae lefel y cymorth ar gyfer y rhai hynny yr effeithir arnynt gan fabwysiadu yn anghyson ledled Cymru.
- Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n derbyn cymorth yn fodlon, ond ystyrir ei bod yn anodd manteisio ar wasanaethau.
- Mae angen buddsoddi mwy mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu:
 - a) Nid oedd unrhyw dimau cymorth mabwysiadu penodol a oedd yn canolbwyntio'n unig ar ddarparu cymorth i'r **holl** bartïon, gan gynnwys teuluoedd biolegol, yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.
 - b) Nid oedd llawer o adnoddau ariannol ar gael ar gyfer cymorth mabwysiadu.
 - c) Byddai mynediad at hyfforddiant arbenigol yn cynyddu sgiliau a hyder yr holl weithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â mabwysiadu.
- Dylai gwasanaethau cymorth mabwysiadu allu ymateb i'r angen a bod ar gael yn y tymor byr a'r tymor hwy:
 - a) Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd mabwysiadol yn gofyn am wasanaethau cymorth mabwysiadu sawl blwyddyn ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei ganiatáu.
 - b) Adroddir bod angen arbennig am wasanaethau therapiwtig ar gyfer plant ag anghenion amryfal o ganlyniad i drawma, camdriniaeth/ esgeulustod ac anawsterau ymlyniad.
 - c) Dylid parhau i ddatblygu rôl y sector gwirfoddol o ran cymorth mabwysiadu.
- Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd yn rhoi cyfle i sicrhau bod cymorth sy'n ymateb i anghenion lleol yn cael ei ddarparu'n deg ledled Cymru.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD



Pam mae cymorth mabwysiadu'n bwysig?

Bydd y rhan fwyaf o blant sy'n cael eu mabwysiadu o'r system ofal yn y Deyrnas Unedig wedi profi camdriniaeth ac esgeulustod (1). Er bod mabwysiadu'n gallu darparu amgylchedd cadarnhaol i blant adfer yn ddatblygiadol (2), mae pryderon o bwys yn parhau ynglŷn â lefel uchel anghenion plant, a'r gwasanaethau sydd ar gael i fodloni'r anghenion hynny. Mae darparu ystod o wasanaethau cymorth mabwysiadu wedi'i gysylltu â mwy o sefydlogrwydd mewn lleoliadau mabwysiadol (3), mwy o barodrwydd i fabwysiadu plant o ofal maeth (4), mwy o foddhad ymhlith rhieni (5) a gwell dealltwriaeth o blant mabwysiedig (6).

Yr astudiaeth ymchwil

Amlinellodd yr ymchwil y gwasanaethau cymorth mabwysiadu presennol yng Nghymru, archwilio safbwyntiau asiantaethau mabwysiadu ynglŷn â gwasanaethau cymorth mabwysiadu, a gofyn am brofiadau teuluoedd mabwysiadol o gymorth.

Roedd yr holl asiantaethau mabwysiadu awdurdod lleol a gwirfoddol yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn arolwg a chyfweiliadau ffôn dilynol. Roedd 91 o rieni mabwysiadol a oedd wedi mabwysiadu cyfanswm o 147 o blant o dan 18 oed wedi cwblhau arolwg ar-lein.

Strwythur gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru

Roedd y rhan fwyaf o staff mabwysiadu mewn awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflawni pob agwedd ar waith mabwysiadu, gan gynnwys asesu, dod o hyd i deuluoedd a chymorth. Nid oedd llawer o amser i ganolbwyntio ar gymorth mabwysiadu, gan fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i recriwtio mabwysiadwyr a pharu plant â theuluoedd mabwysiadol. Felly, roedd cymorth mabwysiadu yn 'ystyriaeth eilaidd'. Fodd bynnag, yn sgil datblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru, mae mwy o ardaloedd wedi adrodd eu bod yn bwriadu datblygu timau cymorth mabwysiadu arbenigol.

Roedd gwaith cymorth mabwysiadu yn cael ei ystyried yn weithgarwch tra medrus a oedd yn ennyn pryder ymhlith y gweithwyr yn ogystal â brwdfrydedd. Amlygwyd yr angen am hyfforddiant

arbenigol, yn enwedig ar faterion yn ymwneud â thrawma ac ymlyniad.

Adroddodd y rhan fwyaf o asiantaethau mabwysiadu fod y galw am wasanaethau Cymraeg yn isel, er y gallai hyn gynyddu os cynigir mwy o wasanaethau yn Gymraeg. Roedd o leiaf un siaradwr Cymraeg yn nhraean o'r teuluoedd yn yr astudiaeth hon.

Cael mynediad at gymorth mabwysiadu

Nododd teuluoedd fod cymorth mabwysiadu yn aml yn dod i ben ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei ganiatáu. Fodd bynnag, roedd asiantaethau mabwysiadu'n pwysleisio y byddai pob mabwysiadwr yn gallu manteisio ar y gwasanaethau cyffredinol a gynigir fel grwpiau cymorth, hyfforddiant a diwrnodau gweithgareddau.

Nid oedd teuluoedd mabwysiadol bob amser yn sicr ynghylch pwy i fynd atynt am gymorth yn eu hardal. Roedd tri chwarter wedi ceisio cael mynediad at gymorth rai blynyddoedd ar ôl y gorchymyn mabwysiadu (2-7 mlynedd). Adroddodd y rhan fwyaf o asiantaethau fod yn rhaid i geisiadau am gymorth fynd trwy eu timau derbyn. Roedd hyn yn achosi pryder i reolwyr mabwysiadu a mabwysiadwyr, nid dim ond ynglŷn â'r lefel isel o 'ymwybyddiaeth o fabwysiadu' ymhlith gweithwyr cymdeithasol, ond hefyd ynglŷn â'r ffaith yr ystyrir bod y trothwyon yn uchel ar gyfer cael mynediad at wasanaethau.

Roedd lleiafrif o fabwysiadwyr hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu barnu neu eu beio am anawsterau eu plentyn. Dywedodd un rhiant mabwysiadol: '*fe wnaethon nhw wadu anawsterau'r plant a'n beio ni*'. Nid oedd pob teulu mabwysiadol yn aros tan iddynt gyrraedd pwynt argyfwng cyn gofyn am gymorth, ond dywedodd sawl un eu bod wedi cyrraedd pwynt argyfwng tra'u bod yn aros am asesiadau a gwasanaethau. Pwysleisiodd rhieni mabwysiadol eu bod nhw eisiau ymagwedd meddwl agored a rhagweithiol gan weithwyr cymdeithasol wrth geisio cael cymorth.



Asesu ac adolygu anghenion cymorth mabwysiadu

Roedd ymgynghori ag ymarferwyr ym meysydd addysg, iechyd, ac yn enwedig iechyd meddwl, yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn ystod y broses asesu, ond roedd yn anghyson ar draws Cymru. Mae gan lawer o blant mabwysiedig anghenion amryfal. Dywedodd un rheolwr asiantaeth fabwysiadu: *'Y peth pwysig yw cynnwys y bobl briodol.... Yn ei hanfod, ni allwch benderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen tan i chi ddeall beth yw'r sefyllfa bresennol'*

Dywedodd rheolwyr mabwysiadu fod llawer o rieni mabwysiadol wedi'u digalonni, neu'n teimlo fel petaent yn 'methu' os oeddent yn gofyn am gymorth. Un ateb i hyn fyddai cynnwys cymorth mabwysiadu o ddechrau'r broses recriwtio fel na fyddai mabwysiadwyr yn teimlo fel petaent yn wahanol neu'n methu fel rhieni os oes angen cymorth arnynt.

Darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu

Mae ystod o wasanaethau cymorth mabwysiadu ar gael yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sydd ar gael yn gyffredinol i deuluoedd mabwysiadol, fel grwpiau cymorth a hyfforddiant parhaus. Dywedodd yr holl asiantaethau eu bod yn cynnig cymorth gyda chysylltiad blwch llythyrau â rhieni biolegol, ond roedd cymorth gweithredol yn y maes hwn yn gyfyngedig iawn yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru.

Roedd gwasanaethau cymorth penodol, fel cyrsiau rhianta therapiwtig, cymorth gan gyfoedion i blant a phobl ifanc mabwysiedig, a gwasanaethau i deuluoedd biolegol ac oedolion mabwysiedig ar gael hefyd, er bod y ddarpariaeth yn fylchog ar draws Cymru. Roedd gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth amryfal yn anodd cael gafael arnynt mewn llawer o ardaloedd. Byddai datblygu gwasanaeth cymorth arbenigol amddisgyblaethol yng Nghymru yn cael ei groesawu'n arbennig gan asiantaethau mabwysiadu a rhieni mabwysiadol. Yn ogystal, adroddwyd bod angen i'r cymorth mabwysiadu a gynigir gyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol yn aml yn hytrach na bod yn ymatebol i anghenion. Yn ôl un consortiwm rhanbarthol:

Nid ydym ni bob amser yn cynnig y pecyn gorau, yn fy marn i. Rydym ni'n cynnig y gorau sydd ar gael o fewn ein hadnoddau'.

Adroddwyd bod gan asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol arbenigedd penodol ym maes cymorth mabwysiadu. Roedd hyn yn cynnwys trefnu bod mabwysiadwyr a phlant mabwysiedig yn cael mynediad at rwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, trefnu bod teuluoedd biolegol yn cael mynediad at gymorth annibynnol gan asiantaeth heblaw'r un a leolodd eu plentyn i'w fabwysiadu, a darparu cwnsela i oedolion mabwysiedig a gwasanaethau i deuluoedd biolegol.

Adroddodd pedwar o'r pum rhanbarth fod teuluoedd yn gorfod aros i dderbyn cymorth mabwysiadu yn 'aml' neu'n 'aml iawn'. Pwysleisiwyd prinder sylweddol o ran adnoddau, ynghyd â diffyg dull unedig amlasiantaethol a'r heriau sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth Cymru. Fodd bynnag, lle y darparwyd gwasanaethau cymorth mabwysiadu i deuluoedd mabwysiadol, roedd y rhan fwyaf (58%) o'r farn bod y gwasanaethau'n rhagorol neu'n dda.

Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd: Heriau a Chyfleoedd

Ceir meysydd cryf yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, gan gynnwys ymrwymiad a chreadigrwydd asiantaethau mabwysiadu sy'n gweithio'n galed i fodloni anghenion y rhai hynny yr effeithir arnynt gan fabwysiadu o fewn adnoddau ariannol a gwasanaeth cyfyngedig. Fodd bynnag, mae darpariaeth o ansawdd uchel yn fylchog ledled Cymru, yn enwedig o ran gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion cymhleth amryfal plant mabwysiedig a'u teuluoedd. Adroddodd asiantaethau mabwysiadu hefyd eu bod yn cael trafferth bodloni anghenion teuluoedd biolegol ac oedolion mabwysiedig mewn modd cyson ac amserol. Bydd creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn cynnig cyfle i sicrhau mynediad teg at wasanaethau cymorth mabwysiadu o ansawdd uchel, sy'n ymatebol i anghenion lleol a rhanbarthol, ar gyfer yr holl rai yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.

Manylion ychwanegol

Comisiynwyd ac ariannwyd y prosiect ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i cynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/adoption-support/?lang=en#>

Cyfeiriadau

- (1) Selwyn, J., Wijedasa, D., and Meakings, S. (2014) *Beyond the Adoption Order: adoption disruption and families in crisis*. London: Department for Education.
- (2) Palacios, J. and Brodzinsky, D. (2010) 'Review: Adoption Research: Trends, topics, Outcomes' *International Journal of Behavioral Development* 34 (3), 270 – 284.
- (3) Houston, D.M. and Kramer, L. (2008) 'Meeting the long-term needs of families who adopt children out of foster care: A three-year follow-up study'. *Child Welfare*, 87: 145-170.
- (4) Evan B. Donaldson Institute (2010) *Keeping the Promise* http://www.adoptioninstitute.org/publications/2010_10_20_KeepingThePromise.pdf
- (5) Rushton, A. And Monck, E. (2009) *Enhancing adoptive parenting: A test of effectiveness*, London: BAAF.
- (6) Dhami, M., Mandel, D., & Sothmann, K. (2007). 'An evaluation of post-adoption services', *Children and Youth Services Review*, 29, 162–179.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd



CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD